GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda University Health Board

# Ein cynllun ar gyfer canolbarth a gorllewin Cymru iachach



**Hawdd ei Ddeall**

# Hawdd ei Ddeall





Fersiwn Hawdd ei Ddeall o rywfaint o wybodaeth yw hwn.

Mae'n defnyddio geiriau haws a lluniau.



Falle bydd rhai pobl dal angen help i'w ddarllen.




Mae rhai geiriau mewn **print trwm** i ddangos eu bod yn bwysig.




Ni'n egluro geiriau mewn print trwm os ydy nhw'n anodd i ddeall.

# Beth sydd yn y llyfryn

Am y llyfryn ........ 4

Ein gweledigaeth ........ 5


Ein hamcanion a nodau ........ 6

Gwneud yn siwr bod ein cynllun yn gweithio ........ 12

Siarad Iechyd/Talking Health ........ 13

# Am y llyfryn

Mae'r llyfryn wrth Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.



Ni sy'n rhedeg gwasanaethau iechyd ar gyfer pobl yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, a Sir Benfro, a phobl sy'n byw yn agos i'r ardaloedd hyn.




Mae hwn yn fersiwn Hawdd ei Ddeall o'r cynllun hirdymor sydd wedi'i adfywio ar gyfer canolbarth a gorllewin Cymru.



Mae'r cynllun yn nodi sut byddwn yn helpu pobl leol i fyw bywydau iachach a chadw'n iach am hirach.

# Ein gweledigaeth




Ein **gweledigaeth** yw fel ni am i bethau fod yn y dyfodol.



Ein gweledigaeth yw i bawb yng nghanolbarth a gorllewin Cymru i fyw bywydau iachach, gyda'r gefnogaeth iawn i gadw'n iach a byw'n dda.

# Ein hamcanion a nodau




**Ein hamcanion** yw'r prif bethau ni am wneud.




**Ein nodau** yw'r pethau byddwn yn gwneud fel bod yr amcanion yn digwydd.




Mae 4 amcan a 8 nod yn ein cynllun.



Nesaf, byddwn yn sôn am bob amcan a'r nodau fel bod nhw'n digwydd.

# Amcan 1
## Timau ffyniannus



**Amcan 1** yw i wneud yn siwr bod ein staff yn cael cefnogaeth ac yn gallu gweithio'n dda gyda'i gilydd.

Ni wedi gosod 2 nod fel bod amcan 1 yn digwydd:



- **Nod 1:** Cefnogi ein staff i wneud eu swydd yn dda a rhoi'r gofal gorau posib.



- **Nod 2:** Siarad yn garedig a gofalgar gyda phobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau.

# Amcan 2

## Cymunedau iachach



**Amcan 2** yw i helpu pobl i fyw bywydau iachach yn lleol.

Ni wedi gosod 2 nod fel bod amcan 2 yn digwydd:



- **Nod 3:** Helpu'r 20% o bobl sydd ei angen fwyaf drwy ganolbwyntio'n gynnar ar y 4 risg iechyd mwyaf. Byddwn yn canolbwyntio ar 7 maes a fydd yn gwneud y gwahaniaeth mwyaf i fyw bywydau iachach.



- **Nod 4:** Darparu mwy o wasanaethau yn dy gymuned yn gyntaf.

# Amcan 3

## Gofal gwych



**Amcan 3** yw i roi gofal da a diogel i bobl, sy'n eu helpu gyda beth sydd ei angen.

Ni wedi gosod 2 nod fel bod amcan 3 yn digwydd:



- **Nod 5:** Gwneud pethau yn haws fel bod ti'n gallu defnyddio ffôn neu gyfrifiadur i gael cyngor iechyd, gwneud apwyntiadau a chael canlyniadau profion.




- **Nod 6:** Gwneud yn siwr bod pawb yn gallu cael gofal da iawn heb aros amser hir.

# Amcan 4

## Dyfodol cadarnhaol

**Amcan 4** yw:



- Siarad â phlant a phobl ifanc am broblemau iechyd y gallent eu hwynebu yn y dyfodol.




- Sicrhau bod ein gwasanaethau iechyd a gofal yn barod ar gyfer y dyfodol.

Ni wedi gosod 2 nod fel bod amcan 4 yn digwydd:



- **Nod 7:** Gweithio gydag eraill i wella pethau ar gyfer pobl yn y dyfodol.



- **Nod 8:** Diweddaru yr adeiladau fel bod nhw'n ddiogel a hawdd i bawb ddefnyddio.

# Gwneud yn siwr bod ein cynllun yn gweithio



Byddwn ni'n cadw i wrando ar beth ti'n meddwl o'r cynllun a beth sydd ei angen arno ti.



Byddwn ni hefyd yn edrych ar ein cynllun hirdymor i wneud yn siwr ei fod yn cynnwys beth sydd ei angen ar bobl.




Os bydd beth mae pobl angen yn newid, bydd y cynllun yn newid hefyd.

# Siarad Iechyd/Talking Health

Mae **Siarad Iechyd/Talking Health** yn ffordd i bobl leol ddweud beth mae nhw yn meddwl o'r gwasanaethau iechyd lleol a sut maen nhw yn gweithio.




Galli di fod yn rhan o Siarad Iechyd/Talking Health drwy fynd i'r gwefan:
[www.hduhb.nhs.wales/siaradiechyd-talking-health/](www.hduhb.nhs.wales/siaradiechyd-talking-health/)



Galli di hefyd ysgrifennu llythyr i ni a'i bostio i:

FREEPOST HYWEL DDA HEALTH BOARD

Does dim angen i ti ddefnyddio stamp ar gyfer y llythyr.

Cynhyrchwyd y llyfryn Hawdd ei Ddeall hwn gan easy-read-online.co.uk Mae'r llyfryn yn defnyddio lluniau wedi'u trwyddedu gan Shutterstock.